# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3343A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan hwn ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiad ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 11

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi Archwilio 20

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 21

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o’r cyfrifon;
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus ond hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Cynlluniwyd fy rhaglen waith i roi’r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gydnerthedd a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i’r afael â’r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. I raddau helaeth roeddem yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan fo hynny’n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd gwaith archwilio pan oedd yn ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Yn anochel cafodd hyn effaith ar y ffordd yr ydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae wedi helpu hefyd i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Fel yn achos y ddwy flynedd flaenorol, mae cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon wedi parhau o bell. Mae'r llwyddiant wrth ei gyflwyno yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Rwyf wedi addasu pwyslais a dull gweithredu fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei fod yn berthnasol yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Rwyf wedi  gwneud sylwadau ynghylch sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar sut mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i

ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am y costau o wneud fy ngwaith, o'i chymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Byddwn yn cytuno ar amseriad cyhoeddi'r adroddiad hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Llawn yn gynnar yn 2023. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn ni'n sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad); fodd bynnag, fe wnes i ddod â dau fater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn eu gwella.

13 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, fodd bynnag roedd yn ysgwyddo gwariant ar rwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG, yr wyf yn ystyried ei fod y tu allan i'w bwerau i'w wario, felly cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd.

14 Ochr yn ochr â fy marn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at fater rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi’n glir y trefniadau corfforaethol ar gyfer llywodraethu ansawdd a'i nodau ar gyfer ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, mae gwendidau'n parhau ar lefel rhanbarthol a chyfarwyddiaeth a allai effeithio ar lif y sicrwydd o'r llawr i'r bwrdd.
- canfu fy asesiad strwythuredig:
  - er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu corfforaethol, mae cyfleoedd yn bodoli i wella'r trefniadau hyn ymhellach i fynd i'r afael â risgiau allweddol a phwysau gweithredol.
  - mae angen i'r Bwrdd Iechyd edrych eto ar ei strategaeth glinigol i sicrhau bod cynlluniau clinigol a chanolig yn helpu i ysgogi gwella gwasanaethau a helpu i lunio gwasanaethau cynaliadwy hirdymor.
  - mae angen i'r Bwrdd ganolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â heriau a risgiau ariannol a sicrhau mwy o oruchwyliaeth o fesurau adfer ariannol.
  - er bod trefniadau rhesymol ar waith i nodi cyfle ar gyfer arbedion, mae cyflawni cynlluniau arbedion yn weithredol wedi bod yn heriol.
  - mae trefniadau rhesymol ar gyfer cefnogi llesiant staff, adnoddau digidol a rheoli'r ystâd ac asedau ffisegol, ond rwyf wedi tynnu sylw at rai meysydd i'w gwella.
- Er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol yn adferiad rhestrau aros, mae'r twf sylweddol yn niferoedd y bobl sy'n aros yn debygol o olygu na fydd rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig am flynyddoedd lawer.

16 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn elfen hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol. Mae'r cyfrifon hyn yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifau arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi risgiau allweddol archwilio cyfrifon ar gyfer 2021-22 ac mae **Arddangosyn 4 yn Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â nhw.

19 Caiff fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2021-22

20 **Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad)**, **fodd bynnag, fe wnes i ddod â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer eu gwella.**

21 Rhoddodd y Bwrdd Iechyd eu datganiadau ariannol drafft i mi a'u Hadroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd drafft erbyn y terfynau amser a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y dogfennau drafft a'r papurau gwaith ategol o ansawdd da.

22 Rhaid i mi adrodd am faterion sy'n deillio o fy ngwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) i'w hystyried cyn imi gyhoeddi fy marn archwilio ynghylch y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn ar 13 Mehefin 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Roedd un camddatganiad yn y cyfrifon a oedd yn uwch na'n lefel ddibwys (£0.854 miliwn) ond yn is na pherthnasedd (£17.081 miliwn). Cafodd hyn ei drafod gyda rheolwyr, ond yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru maent yn parhau heb eu cywiro.<br>Mae tir ac adeiladau'r GIG yn destun ailbrisiadau llawn bob pum mlynedd gan y Gwasanaethau Prisiwr |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| | Dosbarth (DVS). Yn y blynyddoedd rhyngol, mae gwerth yr asedau hyn yn cael ei fynegeio gan ddefnyddio mynegeion a gynghorwyd gan y DVS. Ym mis Awst 2021 darparodd y DVS y cyfraddau oedd i fod yn 2021-22. Y mynegai a ddyfynnwyd ar gyfer adeiladau oedd 5%. Ym mis Mawrth 2022, oherwydd cynnydd mewn costau adeiladu, fe wnaeth y DVS ddiweddaru'r gyfradd mynegai adeiladau i 7% ar gyfer chwarter olaf 2021-22.<br>Yn unol â holl gyrff iechyd eraill Cymru ac wrth gydymffurfio â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru o dan Ddiweddariad Technegol 7, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gymhwyso'r gyfradd ddiweddaraf wrth iddynt gyfrifo mynegeion yn y datganiadau ariannol.<br>Arweiniodd hyn at y camddatganiadau canlynol:<br>• cynnydd o £11.047 miliwn yng ngwerth tir ac adeiladau o ran mynegai, ar 31 Mawrth 2022;<br>• cynnydd mewn dibrisiant o £101,000 ar gyfer 2021-22 gyda thâl i'w godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr;<br>• gwrthdroi amhariadau yn y gorffennol o £7.577 miliwn ar gyfer 2021-22 i'w gredydu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr;<br>• cynnydd yn y gronfa ailbrisio wrth gefn o £3.470 miliwn, ar 31 Mawrth 2022.<br>Yn unigol ac ar y cyd, nid oedd y camddatganiadau nas cyweiriwyd hyn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Felly, ni wnaeth y ffaith na chawsant eu cywiro effeithio'n andwyol ar fy marn archwilio. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd sawl camddatganiad a gywirwyd a gywirodd wallau dosbarthu, tynnu'r asedau hynny â gwerth llyfr net nil o'r cyfrifon nad oedd y Bwrdd Iechyd bellach yn berchen arnynt neu ddarparu datgeliadau naratif ychwanegol. |
| Materion arwyddocaol eraill | Roedd dau fater arwyddocaol yn deillio o fy archwiliad o'r cyfrifon:<br>**Eiddo, Peiriannau ac offer**<br>Oherwydd COVID, penderfynodd y Bwrdd Iechyd beidio â chynnal ei adolygiad amhariad asedau |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| | blynyddol a'r broses ar gyfer gwirio bodolaeth asedau ar 31 Mawrth.<br>Fel rhan o'n hadolygiad o oes asedau, fe wnaeth fy nhîm brofi drwy samplo asedau a gofnodwyd fel rhai sydd â Gwerth Llyfr Net (NBV) o 'ddim'. Yn ôl fy adolygiad o'r asedau hyn, roedd cyfanswm cyfradd gwallau o 33% ar gyfer cyfanswm y sampl poblogaeth a brofwyd.<br>Gwnaed gwaith pellach gan y Tîm Cyllid i roi sicrwydd nad oedd y Gwerth Llyfr Gros (GBV) yn cael ei gam-ddatgan yn berthnasol. Cafodd y Tîm Cyllid gadarnhad ar gyfer asedau â GBV o £24.4 miliwn, gyda chadarnhad nad oedd £5.1 miliwn ohono yn cael ei ddefnyddio mwyach a diwygiwyd y datganiadau ariannol yn unol â hynny. Yn ogystal, amlygodd ymatebion gan adrannau ansicrwydd ynghylch bodolaeth asedau i werth pellach o £1.5 miliwn, gan arwain at wall posibl o 25% (£6.6 miliwn allan o £25.9 miliwn o ymatebion).<br>Mae allosod y gyfradd gwallau hon i'r asedau gwerth £24 miliwn sy'n weddill, yn dangos camddatganiad posibl o £6 miliwn, a oedd yn is na fy mherthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol.<br>Ar gyfer 2022-23, argymhellais fod adolygiadau gwirio asedau yn cael eu cynnal yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod dilysu bodolaeth a gwerthoedd asedau yn gywir ac nid yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol ar 31 Mawrth.<br><br>**Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth**<br>Nododd fy ngwaith sawl gwelliant i'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a oedd yn cynnwys y canlynol:<br>• cynnwys cyflogau blynyddol i'r unigolion hynny a oedd yn eu swyddi am ran o'r flwyddyn yn unig;<br>• cynnwys teitlau swyddi cywir.<br>Cafodd y nodyn ei gymhlethu ymhellach gan nifer y newidiadau i staff ar lefel Uwch Reoli ac aelodau'r Bwrdd.<br>Ar gyfer 2022-23, argymhellais y dylid adolygu llunio'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru. |

23 Fe wnes i hefyd gynnal adolygiad o’r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth gyfan. Deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth cydgrynhoi'r parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2022 a bod y ffurflen wedi ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

24 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol wedi'i gwblhau. Cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 19 Ionawr 2023, a'u llofnodi, ar ôl ystyried fy adroddiad ar y datganiadau ariannol, gan yr Ymddiriedolwyr yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ar 25 Ionawr 2023. Cyhoeddais fy marn archwilio ar 27 Ionawr 2023.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

25 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Mae’n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i gael yr incwm ac ysgwyddo’r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.

26 Pan nad yw Bwrdd Iechyd yn llwyddo i gyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra.

27 **Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, fodd bynnag roedd yn ysgwyddo gwariant ar rwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG, yr wyf yn ystyried ei fod y tu allan i'w bwerau i'w wario, felly cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra’r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd.**

28 Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd warged yn ystod y flwyddyn o £0.249 miliwn o’i gymharu â’i ddyraniad adnoddau refeniw a gwarged o £0.050 miliwn o’i gymharu â’i ddyraniad adnoddau cyfalaf.

29 Am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol â gwarged cronnus o £0.526 miliwn ar gyfer gwariant refeniw. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd gyflawni ei ddyletswydd i fantoli’r cyfrifon hyd yn oed mewn cysylltiad â gwariant cyfalaf, gyda gwarged o £0.091 miliwn dros yr un cyfnod o dair blynedd.

30 Fe wnes i roi barn amodol ar reoleidd-dra oherwydd bod y datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth (a gwariant cyfatebol) o £756,155, yn ymwneud ag amcangyfrif atebolrwydd y Bwrdd Iechyd yn deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol yn 2019. Rhoddodd y Cyfarwyddyd gyfarwyddyd i daliadau gael eu gwneud i staff clinigol, os cânt eu hawlio, i adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn.

31 I glinigwyr y GIG a ddewisodd hawlio'r cynnig ariannol i setlo eu taliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o'u cynilion pensiwn y GIG 2019-20, byddai eu cyflogwyr yn y GIG yn gwneud iawn am effaith y taliadau treth personol hynny ar eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Roedd hawliadau a gafodd eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer 31 Mawrth 2022 yn cael eu hystyried yn wariant o fewn

datganiadau ariannol 2021-22. Yn fy marn i, mae'r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol o ran ei natur.

32 **Ochr yn ochr â fy marn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at fater rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG.**

33 Mae gennyf i'r pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â fy marn lle rwyf eisiau amlygu materion. Oherwydd y mater a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi'r manylion ffeithiol sy'n ymwneud â rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

34 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd.
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus.
- cynnal adolygiad lefel uchel o sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn gofal a gynlluniwyd.
- cynnal adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer cynllunio, cyflawni, a monitro effeithlonrwydd ac arbedion.

35 Mae fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Trefniadau llywodraethu ansawdd

36 Archwiliodd fy adolygiad pa un a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y dull gweithredol a chorfforaethol o ran llywodraethu ansawdd, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llif gwybodaeth ac adrodd.

37 Canfu fy ngwaith fod **y Bwrdd Iechyd wedi mynegi'n glir y trefniadau corfforaethol ar gyfer llywodraethu ansawdd a'i feysydd allweddol y canolbwyntir arnynt ar gyfer ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, mae gwendidau'n parhau ar lefel rhanbarthol a chyfarwyddiaeth a allai effeithio ar lif y sicrwydd o'r llawr i'r bwrdd.**

38 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi ei feysydd allweddol blynyddol y canolbwyntir arnynt ar gyfer ansawdd a diogelwch ac mae ganddo drefniadau rhesymol ar gyfer monitro risg. Mae'n datblygu trefniadau gwella ansawdd ac mae perfformiad cwynion a dysgu gwersi yn gwella. Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau, mae'n annog staff i godi pryderon ac mae cyfrifoldeb ar y cyd dros ansawdd a diogelwch ymysg yr Arweinyddiaeth Weithredol. Mae strwythurau a phrosesau ansawdd a diogelwch corfforaethol yn glir ac mae trefniadau ar gyfer monitro gwybodaeth ansawdd a diogelwch yn gwella.

39 Fodd bynnag, mae bylchau mewn llif o sicrwydd ac mae angen i'r fframwaith sicrhau ansawdd roi eglurder ynghylch sut mae system sicrhau ansawdd a diogelwch 'o’r llawr i’r bwrdd' yn gweithredu'n ymarferol. Nid oes digon o gapasiti ymhlith staff gweithredol a rheolwyr i gefnogi llywodraethu ansawdd yn effeithiol ac mae angen cryfhau systemau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ar lefelau gweithredol. Mae polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd wedi dyddio ac mae angen ei adolygu. Mae yna hefyd gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella sut mae'n nodi profiadau cleifion ac yn dysgu ohonynt ac mae mwy i'w wneud i sicrhau bod staff yn fodlon adrodd am bryderon, a’u bod yn derbyn adborth ynghylch y camau a gymerir.

## Asesiad strwythuredig

40 Digwyddodd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG nid yn unig yn parhau i ymdrin â’r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r nifer sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

41 Roedd fy nhîm yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Rhoddodd fy nhîm sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

.

### Trefniadau llywodraethu

42 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau llywodraethu’r Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae cymorth cynllunio sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

43 Canfu fy ngwaith, **er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, mae cyfleoedd yn bodoli i**

**wella'r trefniadau hyn ymhellach i fynd i'r afael â risgiau allweddol a phwysau gweithredol**.

44 Mae trefniadau Bwrdd a phwyllgor yn cryfhau, ond bydd angen eu gwella ymhellach er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau ariannol a pherfformiad cynyddol y mae'n eu hwynebu. Cefais gyfle i gryfhau dull cyfarfod hybrid y Bwrdd a gwella amserlenni ar gyfer cyhoeddi agendâu, papurau, a chofnodion cyfarfodydd. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau bod datganiadau o fuddiant a pholisïau allweddol i gefnogi cynnal busnes yn effeithiol yn cael eu diweddaru.

45 Er ei bod yn ymddangos bod newidiadau diweddar i strwythurau pwyllgorau yn arwain at lwyth gwaith cytbwys, mae lle i fireinio maint a threfn agendâu a gwella rhai papurau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn creu mwy o sefydlogrwydd arweinyddiaeth ar lefel weithredol ac yn datblygu ac yn ymwreiddio ei systemau sicrwydd yn briodol. Mae'r fframwaith canlyniadau yn dechrau helpu'r Bwrdd Iechyd i fonitro cyflawni gwrthrychol strategol yn well. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau adrodd am berfformiad yn ymwneud ag effaith ei gamau gweithredu gwella.

## Trefniadau cynllunio strategol

47 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- gweledigaeth ac amcanion strategol y sefydliad;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- trefniadau cynllunio;
- trefniadau ar gyfer gweithredu a monitro gwaith cyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

48 Canfu fy ngwaith fod **angen i'r Bwrdd Iechyd edrych eto ar ei strategaeth glinigol i sicrhau bod cynlluniau clinigol a rhai tymor canolig yn helpu i wella gwasanaethau a helpu i lunio gwasanaethau cynaliadwy hirdymor.**

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau gwasanaeth ac ariannol cynyddol ac mae angen iddo adolygu ei Strategaeth Dyfodol Clinigol a chynlluniau tanategu i sicrhau bod ei fodelau gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn ysgogi gwelliant.

50 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu da o ran cynllunio, gan sicrhau yn gyson gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Gynlluniau Integredig Tymor Canolig. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid ehangach fel llywodraeth leol a phartneriaid yn y trydydd sector ynghylch datrysiadau ar y cyd, yn enwedig lle mae gwasanaethau yn rhyngwynebu ar iechyd a gofal cymdeithasol.

## Rheoli adnoddau ariannol

51 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol ;
- rheolaethau ariannol;
- trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro.

52 Canfu fy ngwaith fod **angen i'r Bwrdd gryfhau ei bwyslais ar fynd i'r afael â heriau a risgiau ariannol a sicrhau mwy o oruchwyliaeth o fesurau adfer ariannol.**

53 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau balans ariannol hyd yma wedi bod yn dda. Fodd bynnag, mae mwy o bwysau costau ochr yn ochr â diffyg sicrhau arbedion wedi arwain at newid sylweddol yn y sefyllfa ariannol a ragwelwyd ar gyfer 2022-23, gyda'r Bwrdd Iechyd bellach yn adrodd am ddiffyg diwedd blwyddyn yn hytrach na sefyllfa o falans ar ddiwedd blwyddyn. Byddai'r canlyniad ar gyfer eleni yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn bodloni ei ofyniad gwariant statudol. Ond mae'r her ariannol ar gyfer blynyddoedd i ddod hefyd yn debygol o gynyddu, a allai effeithio ar gymeradwyo Cynllun Integredig Tymor Canolig y flwyddyn nesaf.

54 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos rheolaethau ariannol, monitro, a threfniadau adrodd effeithiol ar y cyfan. Rhoddodd sawl adolygiad Archwilio Mewnol ynghylch llywodraethu ariannol, rheolaeth a chynaliadwyedd sgoriau sicrwydd rhesymol a sylweddol. Fodd bynnag, bydd yr heriau ariannol presennol yn y Bwrdd Iechyd yn gofyn am waith craffu a herio cadarnach ynghylch perfformiad ariannol a gwaith i gryfhau ei fesurau adfer ariannol a threfniadau atebolrwydd ariannol ar lefelau uwch.

## Trefniadau arbedion effeithlonrwydd

55 Roedd fy ngwaith yn ystyried y trefniadau lefel uchel ar gyfer cynllunio, cyflawni, a monitro effeithlonrwydd ac arbedion. Er bod **trefniadau rhesymol ar waith i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion, canfûm fod cyflawni cynlluniau arbedion yn weithredol wedi bod yn heriol.**

56 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu rhesymol o nodi meysydd posibl ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd i lywio cynllunio ariannol strategol ac mae ethos cyffredinol da ar lefel uwch sy'n ceisio dull effeithlonrwydd sy'n cefnogi gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol.

57 Mae bwriad i gyflawni effeithlonrwydd ariannol drwy ddull cytbwys o drawsnewid gwasanaethau a rhaglenni sy'n seiliedig ar werth ochr yn ochr ag arbedion tymor byr. Er bod gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni arbedion gan helpu i gael balans ariannol yn y blynyddoedd blaenorol, mae peidio â chyflawni arbedion eleni ynghyd â phwysau cost eithriadol ychwanegol yn arwain at ddirywiad yn y perfformiad ariannol. Bydd diffyg 'tebygol o £37 miliwn' wedi'i gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf ochr yn ochr â diffyg sylfaenol cynyddol, yn gwneud adferiad ariannol yn llawer anoddach.

58 Nid oedd cynlluniau arbedion costau gweithredol ar waith yn ddigon cynnar ac felly'n peryglu cyflawniad. Yn ogystal, efallai na fydd cyflawni effeithlonrwydd gwasanaethau wedi ei seilio ar drawsnewid yn rhyddhau'r cwantwm gofynnol o arbedion fel y bwriadwyd. Mae'r gwaith o gyflawni arbedion gwirioneddol gan wasanaethau'r bwrdd iechyd wedi bod yn rhy araf. Mae arweinwyr gwasanaethau yn amlwg yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ond mae pwysau a straen eithriadol ar y gweithlu wedi effeithio ar y gallu eleni i weithredu'r gwaith o gyflawni arbedion.

59 Gellir cyflawni mwy drwy gydlynu gwaith galluogwyr y sefydliad yn well a 'gallu' gwella ac arloesi presennol drwy'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) i ddarparu gwell effeithlonrwydd ariannol.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynegi ei risgiau ariannol yn agored, ond nid yw'r camau y mae wedi'u cymryd i liniaru'r risgiau hynny wedi bod yn ddigon effeithiol. Mae ei drefniadau monitro yn canolbwyntio'n briodol ar gynlluniau effeithlonrwydd strategol. Fodd bynnag, mae angen iddo hefyd ganolbwyntio ei oruchwyliaeth ar y risgiau i gyflawni cynlluniau yn weithredol a deall yn well effaith cynlluniau effeithlonrwydd.

### Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

61 Roedd fy ngwaith yn ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant staff;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

62 Canfu fy ngwaith **drefniadau rhesymol ar gyfer cefnogi llesiant staff**, **adnoddau digidol a rheoli'r ystad ac asedau ffisegol, ond rwyf wedi amlygu rhai meysydd i'w gwella.**

63 Mae'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu llesiant ac yn ceisio deall sut mae staff yn teimlo i helpu i lywio ei fentrau gwella. Fodd bynnag, mae pwyslais cyfyngedig o hyd ar faterion gweithlu a llesiant ar lefel Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu ei strategaeth ddigidol, ond mae lle i wella ansawdd yr adrodd ar faterion digidol. Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau a threfniadau llywodraethu priodol i'w oruchwylio, ond mae'r ffaith bod cyllid cyfalaf yn brin yn bryder, ac mae ei reolaeth o asedau ffisegol, tracio asedau yn benodol, angen eu cryfhau

## Mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn gofal a gynlluniwyd yng Nghymru

64 Ym mis Mai 2022, cyhoeddais adroddiad a oedd yn nodi hyd a lled yr ôl-groniad mewn gofal a gynlluniwyd yn GIG Cymru, a'r camau allweddol y mae angen i'r system eu cymryd i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Tynnodd fy adroddiad

sylw at dwf parhaus y niferoedd ar y rhestr aros gyffredinol o fis i fis, gan nodi bod cyfradd y twf yn arafu. Nododd hefyd y byddai'r gostyngiad anochel mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at y galw cudd hwn yn dod yn ôl i'r system yn y pen draw. O ystyried y ffactorau hyn a ffactorau eraill, amcangyfrifodd fy ngwaith y gallai gymryd hyd at saith mlynedd cyn i niferoedd cyffredinol y rhestrau aros yng Nghymru ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

65 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gyda cherrig milltir allweddol i fyrddau iechyd eu cyflawni, gan gynnwys pwyslais cychwynnol ar y cleifion hynny sy'n wynebu cyfnodau aros hir iawn. Fodd bynnag, mae'r cerrig milltir hynny eisoes yn profi'n anodd eu cyflawni.

66 Yn unol â'r camau allweddol a nodais yn fy adroddiad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, greu a gwarchod capasiti ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, a pharhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

67 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau ei fod yn mynd ati i reoli'r risgiau clinigol i gleifion sy'n wynebu arosiadau hir am driniaeth a gwella ei systemau ar gyfer cyfathrebu â chleifion i'w helpu i reoli eu cyflwr tra byddant yn aros a'u hysbysu ynghylch beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn dirywio.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Cronfeydd Elusennol – Cynllun Archwilio 2022 | Ionawr 2023 |
| Cronfeydd Elusennol – Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol | Ionawr 2023 |
| Cronfeydd Elusennol – Barn ar y Datganiadau Ariannol | Ionawr 2023 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal a Gynlluniwyd yng Nghymru | Mai 2022 |
| Adolygu Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Mai 2022 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Tachwedd 2022 |

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| Trefniadau Arbedion Effeithlonrwydd | Tachwedd 2022 |
| **Adroddiad** | **Dyddiad** |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2022 | Mawrth 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a amcangyfrifir |
| --- | --- |
| **Adroddiadau ar archwiliadau perfformiad** | |
| Orthopedeg | Chwefror 2023 |
| Gofal heb ei drefnu:<br>• llif cleifion allan o'r ysbyty<br>• mynediad at wasanaethau gofal heb eu trefnu | Mawrth 2023<br>Gorffennaf 2023 |
| Adolygiad dilynol o ofal sylfaenol | Ebrill 2023 |

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a amcangyfrifir |
|---|---|
| **Adroddiadau ar archwiliadau perfformiad** | |
| Cynllunio'r Gweithlu | Mai 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2022 y ffi archwilio arfaethedig o £386,809 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau ar y gweill, yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn y cynllun.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i’r afael â nhw fel rhan o’r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau sylweddol** | | |
| Mae’r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i’r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o’r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol. [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd;<br>• gwerthuso’r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol.<br>. | Ar sail sampl fe wnaeth fy nhîm brofi cofnodion dyddlyfr ac amcangyfrifon cyfrifo ac ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth o reolwyr yn diystyru rheolaethau. Roedd fy nhîm yn fodlon bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol. |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi’i dileu, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae perygl y gallai ansawdd y cyfrifon a phapurau | Bydd fy nhîm yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro’r broses o baratoi cyfrifon. Bydd fy nhîm yn helpu i nodi meysydd lle | Roedd fy nhîm yn cadw cysylltiad cyson gyda'r tîm cyllid er mwyn deall y broses o baratoi cyfrifon, ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r broses hon oherwydd y pwysau parhaus sy'n deillio o Bandemig COVID-19. Roedd fy nhîm yn fodlon |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| gwaith ategol gael eu peryglu gan arwain at fwy o achosion o wallau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu pa un a yw adnoddau ar gael. | y gall fod bylchau yn y trefniadau. | bod y tîm cyllid wedi gwneud trefniadau da er mwyn darparu set gywir ac o ansawdd uchel o ddatganiadau ariannol. |
| Mae ffrydiau cyllid a gwariant cynyddol yn parhau yn 2021-22 i ymdrin â phandemig COVID-19. Gallai'r rhain gael effaith arwyddocaol ar risgiau o gamddatganiadau perthnasol a'r ffurf a dull ein harchwiliad. Mae enghreifftiau o broblemau yn cynnwys rhoi cyfrif am ddatgomisiynu ysbytai maes a'r costau cysylltiedig; twyll, gwallau a risgiau rheoleidd-dra o wariant ychwanegol; prisio (gan gynnwys darfodiad) stocrestr diwedd blwyddyn gan gynnwys Cyfarpar Diogelu Personol; ac amcangyfrif o falansau gwyliau blynyddol. | Bydd fy nhîm yn nodi materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio eu gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer ein harchwiliad | Cynhaliodd fy nhîm amrywiaeth o waith archwilio i nodi'r holl ffrydiau cyllid a gwariant ychwanegol a ddisgwylir o fewn y cyfrifon drwy gysylltu â'r tîm cyllid a Llywodraeth Cymru. Darparwyd canllawiau canolog i gynorthwyo'r gwaith o archwilio'r maes cymhleth hwn. Roedd fy nhîm yn fodlon bod yr incwm a'r gwariant ychwanegol yn rhydd o wallau perthnasol ac yn cael eu dosbarthu'n gywir yn y cyfrifon. |
| Mae'r broses o weithredu'r fenter 'cynllun yn talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn | Bydd fy nhîm yn adolygu'r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddarach o ran y nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am | Roedd fy nhîm yn fodlon bod y datgeliad darpariaethau a wnaed yn y cyfrifon yn briodol, fodd bynnag, fe wnes i roi barn amodol ar reoleidd-dra |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| parhau. Y llynedd, gwnaethom gynnwys paragraff Pwyslais ar Fater yn y farn archwilio i dynnu sylw at eich datgeliad o'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Bydd ceisiadau i'r cynllun yn cau ar 31 Mawrth 2022, ac os gwneir unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddem yn ystyried ei fod yn afreolaidd gan ei fod yn mynd yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn ar reoleidd-dra. | gan i mi ddod i'r casgliad bod y gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol ei natur ac fe wnes i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at fater rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG. |
| **Meysydd eraill o risg archwilio** | | |
| Mae risg y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 11 yn dangos sefyllfa o fantoli'r cyfrifon gyda rhagolwg o sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2019-20 a 2020-21, yn rhagfynegi gwarged tair blynedd o £276,000. Os byddwch yn methu o ran y ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol | Bydd fy nhîm yn canolbwyntio eu profion ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys adroddiadau â gogwydd. | Cynhaliodd fy nhîm ystod o waith archwilio i roi sicrwydd o ran y risg o ogwydd er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ddiwedd blwyddyn wirioneddol yn wir ac yn deg. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• Profion sampl manwl o drafodiadau bob ochr i ddiwedd y flwyddyn i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi yn y cyfnod cyfrifo cywir. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y meysydd â'r risg mwyaf.<br>• sicrhau bod amcangyfrifon cyfrifo yn cael eu paratoi ar sail resymol ac yn cael eu cefnogi gan farn gyfrifo briodol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn rhoi barn amodol ar eich rheoleidd-dra. Mae eich pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon rheolwyr fod â gogwydd mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. | | Roedd fy nhîm yn fodlon bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol |
| Mae cyflwyno Prydlesi IFRS 16 wedi'i ohirio tan 1 Ebrill 2022. Efallai y bydd angen gwneud cryn dipyn o waith i nodi prydlesi a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 achosi risgiau gweithredu ychwanegol. Bydd angen i gyfrifon 2021-22 ddatgelu effaith bosibl gweithredu'r safon. | Bydd fy nhîm yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Roedd fy nhîm yn fodlon bod y datgeliadau yn berthnasol gyflawn a chywir. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.